

UNED : Y FUWCH EIDION –IECHYD A LLES

STAFF

CYFLWYNIAD

Pwrpas yr Uned hon ydi cyflwyno'r problemau iechyd mwyaf cyffredin a geir yn y fuches eidion.

Ar ddiwedd yr Uned hon, bydd myfyrwyr yn gallu disgrifio a gwerthuso ystod o broblemau iechyd buchod eidion.

GEIRIAU ALLWEDDOL

Categoriâu'r prif glefydau :

- Clefydau y gellir eu rheoli e.e. mastitis, cloffni
- Clefydau heintus e.e. Ysgothi Firaol y Gwartheg (BVD), TB, Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (IBR), leptosbriosis a chlefyd Johne
- CLEFYDAU Y GELLIR EU RHEOLI
- CLOFFNI
- MASTITIS
- PARASITIAID
- ANHWYLDEBAU - 'Y Ddera' (Hypomagnesemia), Clwy' Ilaeth / Hypocalsemia

CLEFYDAU HEINTUS - Tiwberciwlosis (TB), Brwselosis, Ysgothi Firaol y Gwartheg (BVD), Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (IBR), Leptosbriosis a Chlefyd Johne

CYNLLUNIO IECHYD Y FUCHES - yn cynnwys ffrwythlondeb, ansawdd Ilaeth a mastitis, cloffni, clefydau heintus a pharasitig, maeth, lloi a stoc ifanc - mesur, rheoli a monitro

ADNODDAU

EBLEX (2005) Beef Action for Profit – 7 – Better Returns from Effective Herd Biosecurity

EBLEX (2006) Beef Action for Profit – 15 – Better Returns from Reducing Herd Lameness

EBLEX (2007) Beef Diseases Directory

EBLEX (2007) Farm Herd Health Planning

HCC (2007) Cynllunio Iechyd Buches – BVD

HCC (2007) Cynllunio Iechyd Buches – Leptosbirosis

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Buches Sugno

HCC (2009) Cynllunio Iechyd Buches - IBR

HCC (2010) Ffocws ar Ysgothi Firaol Gwartheg(BVD) a Chlefyd Johne

GWEITHGAREDDAU DYSGU

Mae cynnal iechyd y fuches yn hanfodol i gadw'r gwartheg yn ffit, yn gynhyrchiol ac yn ffrwythlon o fewn y fuches. Mae bioddiogelwch, system sy'n rhydd o straen, cynllunio da, cynllun iechyd effeithiol wedi'i drafod gyda'r milfeddyg, a'r ffermwr yn cadw llygad barcud ar y fuches i gyd yn sicrhau buches iach.

Gellir dosbarthu clefydau fel arfer i ddau brif gategori :

- Clefydau y gellir eu rheoli e.e. mastitis, cloffni
- Clefydau heintus e.e. *BVD*, *TB*, *IBR*, leptosbirosis a Chlefyd Johne

Rhaid archwilio'r buchod yn rheolaidd- o leiaf unwaith bob dydd, ac, o bosib yn amlach ar amseroedd pwysig – gyda llygad brofiadol, er mwyn atal a rheoli'r clefydau hyn.

CLEFYDAU Y GELLIR EU RHEOLI

CLOFFNI

Mae cloffni'n broblem fawr i iechyd a lles yr anifail. Mae cyflwr corff yr anifail, cynnyrch llaeth a ffrwythlondeb yn dioddef. Yn aml bydd angen cyfraddau uwch o fuchod amnewid. Achosir cloffni gan :

- Clefydau heintus e.e. dermatitis y bysedd neu droed glonc
- Niwed corfforol neu fecanyddol e.e. clefyd y llinell wen neu laminitis trawmatig

Mae niwed corfforol yn cael ei achosi gan lawr anaddas mewn adeiladau a thir garw, yn enwedig wrth giatiau ac ar draciau. Mae clefydau ar eu gwaethaf pan fydd buchod yn sefyllian am hir mewn slyri neu wely gwlyb neu ar lawr gwlyb.

Bydd cael person profiadol yn trin eu traed yn rheolaidd yn help i ddod o hyd i unrhyw broblem, gwella siâp y droed i atal niwed neu haint pellach, a chael gwared ag unrhyw fudreddu allai achosi problemau.

Gall baddon traed gael gwared â heintiau lefel isel, ond bydd achosion difrifol sy'n ailymddangos yn golygu cael gwrthfotigau a chynghor milfeddyg.

Dylid **didoli/difa** anifeiliaid sy' ddim yn ymateb i driniaeth – dylai cloffni fod yn rhan o bolisi difa llym.

Cyflwr	Symptomau ac achosion	Triniaeth
Dermatitis y bysedd	Llid (bacteria) ar y croen o gwmpas y carn – dechrau yng nghefn y carn ond yn ymledu	Gwrthfotigau
Troed Glonc	Llid (bacteria) rhwng yr ewinedd - arogl drwg wrth bwysu arno	Baddon traed (5% Fformalin)
Laminitis	Llid y laminâu - o dan y wal gorniog allanol y droed - wedi'i achosi gan niwed corfforol neu ddeiet dwysfwd uchel	Dogn cywir a'i gyflwyno i ddeiet egni uchel yn raddol

MASTITIS

Haint y gadair/pwrs ydi mastitis, a gall achosi gostyngiad yng nghynnyrch llaeth yn un neu fwy o'r tethi, colli cyflwr corfforol difrifol, a hyd yn oed farwolaeth. Gall effeithio ar heffrod gwryf yn ogystal â heffrod neu fuchod cyflo neu'n llaetha. Mae'r symptomau'n cynnwys :

- Cadair/pwrs wedi chwyddo
- Y fuwch yn anfodlon i'r llo sugno
- Cloffni ac yn cyffio yn y goes/coesau ôl.

Achosir y broblem gan sawl math gwahanol o facteria sydd wedi eu codi drwy'r deth, oherwydd amgylchedd afiach a budr, a gall mai pryfed sy'n lledu mastitis yr haf.

Gellir dilyn sawl cam ataliol :

- Rheolaeth yn ystod diddyfnu - dipio'r deth a defnyddio gwrthfotig 'burch sych' hirhoedlog, defnyddio meddyginiaethau gwrth-bryfed, cyfyngu'r porthi neu ddefnyddio porthiant ansawdd isel e.e. gwellt
- Tagiau gwrth-bryfed neu feddyginiaeth yn ystod misoedd yr haf

PARASITIAID

Gall parasitiaid mewnol ac allanol achosi problemau.

Gall parasitiaid mewnol ('llyngyr' y coluddyn a llyngyr yr iau) fod yn broblem, yn enwedig mewn amgylchedd pori dwys neu wlyb. Efallai y bydd rhaid trin y buchod gyda meddyginiaethau anthelmintig drwy'r geg, brechu neu ei arllwys, o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid trin anifeiliaid newydd eu prynu mor fuan â phosib ar ôl cyrraedd y ffarm.

Bydd ectoparasitiaid e.e. llau i'w cael fel arfer dim ond mewn adeiladau gaeaf, a dylid trin yr anifeiliaid yno ac/neu pan fydd problem yn codi.

ANHWYLDEBAU

'Y Ddera' (Hypomagnesemia) – oherwydd nad oes digon o fagnesiwm yn llif gwaed y fuwch, a'r symptom cyntaf fydd buwch marw. Y buchod sydd mewn mwyaf o berygl ydi'r rhai sydd newydd eu diddyfnu neu rhai sy'n llaetha. Fel arfer, bydd y broblem yn codi :

- Pan droir y gwartheg i borfa doreithiog y gwanwyn
- Pan fydd straen ar y buchod wrth symud neu gael eu diddyfnu
- Pan fydd y tymheredd yn gostwng neu dywydd gwael

Atal y broblem ydi'r unig opsiwn, a dylid cynnig ychwanegion magnesiwm yn y gwanwyn a'r hydref. Dylid osgoi rhoi slyri neu wrtaith potash i'r borfa.

Clwy' Llaeth / Hypocalcemia - achosir hwn pan fydd lefelau calsiwm y gwaed yn gostwng neu'n fwyaf cyffredin, ar ôl lloia. Rhaid delio gyda'r broblem yn sydyn - gellir rhoi brechiad tangroen o galsiwm.

CLEFYDAU HEINTUS

Yn ychwanegol at glefydau allai fod yn gatastroffig, sy'n gallu heintio ffermydd yn lleol, yn rhanbarthol neu ar draws y wlad, e.e. Clwy' Traed a'r Genau neu'r Tafod Glas, gallai glefydau heintus gynnwys :

- Tiwberciwlosis (TB) - bydd buchesi'n cael eu profi bob blwyddyn/bob dwy flynedd/ bob pedair blynedd yn ôl lleoliad y ffarm
- Brwselosis
- Ysgothi Firaol Gwartheg (BVD)
- Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (IBR)
- Leptospirosis
- Clefyd Johne

Yn aml iawn, mae'r symptomau'n amlwg, ond, mewn sawl achos, dim ond monitro gofalus o berfformiad y fuches fydd yn codi amheuan. Y prif gamau i atal neu reoli'r clefydau ydi cadw cofnodion, arsylwi a chydweithio'n agos â milfeddyg y fferm. Mae bioddiogelwch yn ffactor allweddol, a dylid osgoi prynu stoc neu brynu stoc o darddiad hysbys a defnyddio cwarantîn. Dylid cael gwared ag unrhyw anifail neu gariwr sydd wedi'i heintio mor fuan â phosib.

CYNLLUNIO IECHYD BUCHES

Rhaid cael Cynllun Iechyd Buches i atal neu gadw'r problemau hyn dan reolaeth.

Dylai'r cynllun gynnwys :

- ffrwythlondeb
- ansawdd llaeth a mastitis
- cloffni
- clefydau heintus a pharasitig
- maeth
- lloi a stoc ifanc

Dyma'r canllawiau allweddol:

- Mesurwch - dylech wybod beth ydi'r llinell-sylfaen, deall effaith iechyd ar berfformiad y stoc, a defnyddio cofnodion trylwyr er mwyn gallu meincodi, a chanfod problemau.
- Rheolwch – dylech ddelio â'r problemau iechyd sydd â'r mwyaf o frys mewn ffordd drefnus – blaenoriaethu'r mesurau rheoli ar gyfer y problemau hyn, gan ddefnyddio'r dulliau rheoli mwyaf effeithiol.
- Monitrowch - Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, gwiriwch effeithiolrwydd y cynllun, gan ddefnyddio cofnodion trylwyr; gwnewch asesiad o ba mor effeithiol oedd y mesurau, a gwneud yn siŵr eich bod yn adolygu'r cynlluniau iechyd.

CANLYNIAD

Awgrymiadau ar gyfer iechyd y fuches :

1. Peidiwch â phrynu clefydau – mae'n well cael buches hunangynhaliol neu brynu buchod amnewid o fagwraeth statws iechyd hysbys
2. Sicrhewch fod eich arferion rheoli a lletya'n gadarn
3. Monitrowch glefydau drwy gymryd samplau gwaed

4. Gweithiwch yn agos gyda'ch milfeddyg i lunio cynllun iechyd effeithiol
5. Cofnodwch fanylion perfformiad ac iechyd y fuches, a didoli/difa anifeiliaid wedi eu heintio.
6. Brechwch yn erbyn clefydau na ellir eu dileu
7. Deliwch â'r broblem yn syth

FFYNONELLAU GWYBODAETH